**PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD A GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**
**DYDD MERCHER, 22 IONAWR 2020**

Minutes of the meeting of the Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd of Flintshire County Council held at Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA on Dydd Mercher, 22ain Ionawr, 2020

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ted Palmer (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Jean Davies, Rob Davies, David Healey, Gladys Healey, Joe Johnson, Paul Johnson, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Smith, David Wisinger ac Arnold Woolley

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Patrick Heesom (ar ran David Williams) a Tim Roberts (ar ran Clive Carver)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr: Roedd Ian Roberts, Carolyn Thomas a David Williams yn bresennol fel arsylwyr

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Llywodraethu); Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Croesawyd y Cynghorydd Tim Roberts i'w gyfarfod cyntaf ers iddo gael ei ethol yn Aelod.

## 21. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 22. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2019.

Awgrymodd y Cynghorydd Peers fod penderfyniad (c) yng nghofnod rhif 18 yn y fersiwn Saesneg yn dweud 'That the Committee's view is that is would be more practical for any increases...' etc. Yn seiliedig ar hyn, cafodd y cofnodion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Arnold Woolley a Jean Davies.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 23. ADOLYGIAD PWYLLGOR

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad am adolygiad o'r pwyllgorau a arweiniodd at yr argymhellion canlynol yn dilyn ymgynghoriad gydag Arweinwyr Grŵp:

- Lleihau niferoedd Aelodau ar Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu o 15 i 12 a lleihau nifer y pwyllgorau hynny o chwech i bump drwy wahanu cylch gwaith presennol y Pwyllgor Trosolwg Chraffu Newid Sefydliadol. Roedd Arweinwyr Grŵp wedi gofyn fod pedwar opsiwn dros rannu'r llwyth gwaith ymysg y pum pwyllgor sy'n weddill yn cael eu rhoi gerbron yr Aelodau ac aelodau cyfetholedig.

- Lleihau nifer yr aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio o 21 (yr uchafswm cyfreithiol) i 17.

- Lleihau niferoedd ar Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd o 21 i 16 (nid 18 fel sydd i'w weld yn yr adroddiad).

Cytunodd bawb y byddai newidiadau yn cael eu hargymell i'r Chyngor ar 27 Chwefror 2020 er mwyn cael effaith ar ôl y Cyfarfod Blynyddol.

Yn sgil cyfradd ymateb isel a heb unrhyw ddewis amlwg yn cael ei ffafrio, gofynnwyd i Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd benderfynu ar ddewis a ffafrir o'r pedwar yn yr adroddiad.

Fe eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod Arweinwyr Grŵp wedi cydnabod yr angen i wella presenoldeb a chyfranogiad mewn cyfarfodydd, gyda chynrychiolaeth deg o bob plaid wleidyddol ar y pwyllgorau mwy. Cafodd pwyntiau eraill a gafodd eu codi gan Arweinwyr Grŵp eu cydnabod gan yr Arweinydd a gytunodd i leihau nifer Aelodau'r Cabinet ar y Pwyllgor Cynllunio.

Cafodd copïau o drefniadau cydbwysedd gwleidyddol presennol eu dosbarthu, ynghyd â diwygiad yn dangos y newidiadau arfaethedig ac eithrio'r tri phwyllgor bach o'r cyfrifiad i sicrhau nad yw'r pleidiau gwleidyddol llai dan anfantais. Yn ôl y Prif Swyddog, o dan y ddeddfwriaeth, byddai unrhyw Aelod sy'n pleidleisio yn erbyn y cynigion cydbwysedd gwleidyddol yn y Cyfarfod Blynyddol yn arwain at ail gyfrifo i gynnwys y tri phwyllgor bach roedd pob plaid wleidyddol yn eu cynrychioli ar hyn o bryd.

Croesawodd y Cynghorydd Bithell yr adroddiad a fyddai'n helpu rhai pleidiau gwleidyddol i lenwi eu dyraniadau ar bwyllgorau. O ran lleihau niferoedd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, dywedodd ei fod yn cefnogi Dewis 4 gyda'r theatr yn symud ochr yn ochr ag Addysg a Hamdden a bod Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn symud i Cymuned a Menter.

Roedd y Cynghorydd Peers yn cefnogi Dewis 1 ar ôl derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau yn yr ymgynghoriad. Dywedodd y dylai'r theatr barhau gydag Adnoddau Corfforaethol ac y byddai Datblygu Economaidd yn parhau gyda Cymuned a Menter, gyda meysydd Gwarchod y Cyhoedd – yn cynnwys Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Cynllunio Rhag Argyfwng ac ati - yn dod o dan yr Amgylchedd er mwyn adlewyrchu strwythur portffolio.

Wrth ddiolch i swyddogion am yr adroddiad, siaradodd y Cynghorydd Heesom i gefnogi Dewis 1 sef llai o aelodaeth, ond awgrymodd y dylai'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a'r Amgylchedd gadw 15 aelod yr un ar sail eu cylch gwaith estynedig.

Croesawodd y Cynghorydd Johnson yr adolygiad a'r gostyngiad mewn aelodaeth allai help i gynyddu cyfranogiad. Wrth ymateb i'r sylwadau, fe soniodd y Prif Swyddog am fecanweithiau i annog ymgysylltiad Aelodau megis dirprwyon, cyfarfodydd cydbwyllgorau ac Aelodau'n mynychu i arsylwi cyfarfodydd allai fod yn gyfle i gyfrannu heb bleidleisio.

Fel Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid, roedd y Cynghorodd David Healey yn falch o groesawu'r theatr o dan ei gylch gwaith a chafodd ei gefnogi gan y Cynghorydd Bithell.

Ar ôl y drafodaeth, cynigiodd y Cynghorydd Peers Opsiwn 3 roedd o'n teimlo oedd yn ymdrin â'r prif bwyntiau a godwyd gan Aelodau, gyda'r cafeat bod Cynllunio Rhag Argyfwng ac Argyfyngau Sifil Posibl yn mynd at Amgylchedd a'r Economi. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Wisinger.

Wrth gyfeirio at ei bryderon blaenorol am niferoedd aelodau ar bwyllgorau penodol, dywedodd y Cynghorydd Heesom y byddai'n cefnogi'r argymhellion ar sail sylwadau swyddogion ar ddefnyddio dirprwyon a hawl Aelodau i siarad (a pheidio â phleidleisio) tra'n arsylwi pwyllgorau. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd mai'r Cadeirydd fyddai'n penderfynu caniatáu arsylwyr i siarad mewn pwyllgorau.

Gofynnodd y Cynghorydd Johnson am bleidleisio ar y pedwar opsiwn, a rhoddodd y Prif Swyddog gyngor am y weithdrefn. Wrth gynnal pleidlais, cafodd Dewis 3 ei gario.

Cafodd yr ail argymhelliad yn yr adroddiad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorydd David Healey a Neville Phillips.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cyngor:

- bod nifer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n cael eu lleihau o chwech i bump ar ôl y Cyfarfod Blynyddol, a
- dewis a ffafrir ar gyfer gwahanu cyfrifoldebau presennol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol i'r pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu sy'n weddill, yn seiliedig ar y pedwar a nodwyd yn yr atodiad.

(b) Bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cyngor leihau'r Aelodau ar y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, y Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd, a fydd yn weithredol ar ôl y Cyfarfod Blynyddol.

## 24. DATBLYGU AC YMGYSYLLTU AELODAU

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad cynnydd diweddaraf am ddigwyddiadau Datblygu ac Ymgysylltu ag Aelodau sydd wedi cael eu cynnal ers y diweddariad diwethaf ym mis Hydref. Fel diweddariad ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol, cafodd Aelodau eu gwahodd i weithdy Newid Hinsawdd ar fore 25 Chwefror neu sesiwn fin nos ar 5 Mawrth 2020. Byddai rhagor o weithdai'n cael eu trefnu ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf, Cynllun y Cyngor,

Trais Domestig a Gwerth Cymdeithasol.  Cafodd aelodau eu hannog i gyflwyno argymhellion ar gyfer hyfforddiant a datblygu ar destunau eraill.

Cynigiodd y Cynghorydd David Healey weithdy ar rwymedigaethau Adran 106 a Lleoliadau Diwydiannol Strategol (SILS) i roi eglurder i Aelodau ar gyfraniadau datblygwyr.  Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bithell.  Siaradodd y Cynghorwyr Hessom a Peers o blaid y gweithdai, ac fe awgrymodd y Cynghorydd Peers fod mwy o ffocws ar waith cynllunio cyn ymgeisio megis ymgynghoriad gyda'r adran Priffyrdd.

Fe soniodd y Cynghorydd Peers am weithdy diweddar oedd yn ymdrin â Llinellau Sirol, ond mynegodd bryderon am bresenoldeb isel o ystyried pwysigrwydd y pwnc.  Gofynnodd i'r Cynghorydd David Healey ystyried rhannu sleidiau'r cyflwyniad gyda Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a'i ddosbarthu i Benaethiaid Ysgolion Uwchradd.

Roedd y Cynghorydd Healey hefyd yn bresennol yn y gweithdy, roedd yn croesawu'r cyfle i godi ymwybyddiaeth a gofynnodd i'r eitem gael ei hychwanegu at Raglen Gwaith i'r Dyfodol.

Awgrymodd y Cynghorydd Johnson recordio'r sesiynau hyfforddi er mwyn i'r Aelodau oedd methu bod yn bresennol allu elwa.  Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r Gweithdy Llinellau Sirol yn cael ei ailadrodd ar sawl achlysur ac y byddai pob Aelod yn cael gwahoddiad.  Mewn cysylltiad ag awgrym y Cynghorydd Smith ar gyfer sesiwn min nos, dywedodd y byddai'n holi Heddlu Gogledd Cymru pwy oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r gweithdy.

Dywedodd y Cynghorydd Roberts oedd yn bresennol yn yr oriel gyhoeddus, fod Llinellau Sirol yn bryder mawr ymhob cymuned, ac roedd disgyblion yn cael eu gwahardd yn barhaol o ysgolion mewn perygl.  Gofynnodd fod yr adroddiad a gafodd ei ystyried yng nghyfarfod Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus diweddar yn cael ei wneud yn ddi-enw a'i rannu gydag Aelodau er mwyn tynnu sylw at y ffaith fod hyn yn effeithio ar bawb.

Roedd y Cynghorydd Jones hefyd yn bresennol, ac fe soniodd am nifer o sesiynau hyfforddi Llinellau Sirol oedd wedi bod yn boblogaidd iawn a dywedodd y gellir gwneud cais am ragor trwy Fiona Mocko.  Dywedodd fod dolen am y sesiwn hyfforddi ar gael gan Fiona i'w rannu gydag Aelodau.

Dywedodd y Cynghorydd Bithell fod Llinellau Sirol/cam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn broblem oedd yn lledaenu o ddinasoedd i drefi a phentrefi.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Heesom ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Healey.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi cynnydd y digwyddiadau Datblygu ac Ymgysylltu ag Aelodau a gynhaliwyd ers yr adroddiad diwethaf;

(b) Bod yr hyfforddiant awgrymedig ar gyfraniadau Adran 106 a Llinellau Sirol yn cael eu gweithredu; a

(c) Os oes gan Aelodau unrhyw awgrymiadau ar gyfer Datblygu ac Ymgysylltu ag Aelodau yn y dyfodol, fe'u gwahoddir i gysylltu â Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i'w trafod.

## 25. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

..................................................

**Chairman**